CANLLAWIAU

# Rhaglen Plant Iach Cymru: ar gyfer plant oedran ysgol

Sut mae gwasanaethau nyrsio ysgol yn darparu rhaglen iechyd cyffredinol.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 10 Ebrill 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 10 Ebrill 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Rhaglen Plant Iach Cymru ar gyfer plant oedran ysgol: cyflwyniad

### Cefndir a chyd-destun

### Trefn y canllawiau hyn

### Nodau model gweithredu

### Rolau gwasanaethau nyrsio ysgolion

### Fframwaith deddfwriaethol strategol

### Lefelau cefnogaeth haenog

### Waeth beth fo'r lleoliad

### Gweithredu a monitro

### Y model gweithredu

### Mesur effaith

### Tîm o amgylch y plentyn

### Gwybodaeth i rieni

---

## Rhaglen Plant Iach Cymru ar gyfer plant oedran ysgol: adolygiad iechyd cychwyn yn yr ysgol

### Adolygiad iechyd cychwyn yn yr ysgol


---


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Pecyn croeso cychwyn yn yr ysgol

Oedran pontio i'r ysgol

Trosglwyddo gofal i ysgolion arbennig

Cydlynu gofal mewn ysgolion arbennig

Adolygiad imiwneiddio

Sgrinio taldra, pwysau a golwg

Rhaglen mesur plant

## Rhaglen Plant Iach Cymru ar gyfer plant oedran ysgol: asesiad o anghenion iechyd y boblogaeth

Asesiad o anghenion iechyd y boblogaeth

## Rhaglen Plant Iach Cymru ar gyfer plant oedran ysgol: ymyriadau iechyd cyhoeddus

Ymyriadau iechyd cyhoeddus

Asesiadau anghenion iechyd

Lefelau ymyrraeth

## Rhaglen Plant Iach Cymru ar gyfer plant oedran ysgol: cefnogi plant drwy oedrannau a chyfnodau ysgol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Cefnogi plant drwy oedrannau a chyfnodau ysgol

### Cartref, meithrinfa neu warchodwr plant i'r ysgol gynradd

### Ysgol gynradd neu wedi'i addysgu gartref i'r ysgol uwchradd

### Ysgol uwchradd i'r coleg neu'r gweithlu

### Cefnogaeth lefel uwch a dwys

### Disgyblion sy'n ymadael â’r ysgol ac yn pontio i wasanaethau oedolion

### Gwasanaeth galw heibio cyfrinachol

### Un pwynt mynediad

---

## Rhaglen Plant Iach Cymru ar gyfer plant oedran ysgol: crynodeb o'r amserlen imiwneiddio

### Rhaglen imiwneiddio plentyndod i blant oed ysgol

### Safonau imiwneiddio ar gyfer gwasanaethau nyrsio ysgolion

---

## Rhaglen Plant Iach Cymru ar gyfer plant oedran ysgol: diogelu

### Diogelu

### Adolygiad iechyd cychwyn yn yr ysgol

### Pryderon diogelu newydd

---

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Asesiad iechyd

## Gweithiwr iechyd proffesiynol arweiniol

# Rhaglen Plant Iach Cymru ar gyfer plant oedran ysgol: addysg cydberthynas a rhywioldeb

## Addysg cydberthynas a rhywioldeb

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Rhan 1: cyflwyniad

## Cefndir a chyd-destun

Lansiwyd **Rhaglen Plant Iach Cymru** ar gyfer plant 0 i 7 oed yn 2016.

Mae rhan 2 Plant Iach Cymru, y model gweithredu, yn nodi'r cysylltiadau arfaethedig y gall plant, pobl ifanc a'u teuluoedd eu disgwyl gan eu byrddau iechyd, gan ddechrau wrth gychwyn yn yr ysgol (5 oed) hyd at flwyddyn olaf addysg orfodol yng Nghymru (16 oed).

Mae'r cysylltiadau cyffredinol hyn yn cwmpasu 3 maes ymyrraeth:

- sgrinio
- imiwneiddio
- monitro a chefnogi iechyd a datblygiad plant.

Mae angen y model gweithredu cenedlaethol newydd i ategu'r fframweithiau presennol ar gyfer nyrsio mewn ysgolion (rhan 1 2017 a rhan 2 2018) i ddiffinio'n glir y gwasanaethau nyrsio ysgolion a ddarperir gan GIG Cymru.

## Trefn y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn cynnwys 8 rhan fel y nodir isod:


- **Rhan 1: cyflwyniad**
- **Rhan 2: adolygiad iechyd cychwyn yn yr ysgol**
- **Rhan 3: asesiad o anghenion iechyd y boblogaeth**
- **Rhan 4: ymyriadau iechyd cyhoeddus**
- **Rhan 5: cefnogi plant drwy oedrannau a chyfnodau ysgol**
- **Rhan 6: crynodeb o'r amserlen imiwneiddio**
- **Rhan 7: diogelu**



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- **Rhan 8: addysg cydberthynas a rhywioldeb**

# Nodau model gweithredu

Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd pob plentyn a pherson ifanc o oedran ysgol gorfodol yn cael cynnig Rhaglen Plant Iach Cymru.

Bydd y gwasanaethau nyrsio ysgolion yn cynnig darpariaeth iechyd deg i blant oedran ysgol ledled Cymru drwy wneud y canlynol:

- cyflwyno model gweithredu safonol ar gyfer gwasanaethau nyrsio ysgolion i bob plentyn oedran ysgol gorfodol ledled Cymru, waeth beth fo'u lleoliad
- cynhyrchu cyfres glir o lwybrau i blant a phobl ifanc gael mynediad at gymorth wedi'i deilwra yn ôl lefel eu hangen
- gwella iechyd a lles plant oed ysgol a'u cefnogi i wneud dewisiadau gwybodus wrth iddynt ddatblygu trwy blentyndod a glasoed trwy ddarparu rhaglenni iechyd cyhoeddus sy'n seiliedig ar dystiolaeth a blaenoriaethu meysydd angen effaith uchel, gan gynnwys:
  - iechyd a thwf
  - cefnogi atal clefydau heintus trosglwyddadwy
  - dull ysgol gyfan, gan gynnwys iechyd a lles emosiynol
  - cydberthynas a rhywioldeb
  - pontio
  - maeth, hydradu a rheoli pwysau
  - rhoi'r gorau i ysmygu
  - ffordd o fyw a dewisiadau iach
  - camddefnyddio alcohol a sylweddau
- cefnogi plant a phobl ifanc i wneud dewisiadau gwybodus drwy gydol bywyd yn yr ysgol i leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella canlyniadau iechyd cyhoeddus
- codi ymwybyddiaeth o rôl y gwasanaethau nyrsio ysgolion, gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â chyflawni Rhaglen Plant Iach Cymru, gyda phlant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, teuluoedd a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill
- sicrhau bod diogelu wedi'i wreiddio yn y model gweithredu unedig newydd drwyddo draw

Mae ysgolion cyhoeddus ac annibynnol y tu allan i gwmpas y model gweithredu unedig newydd, fel y mae colegau chweched dosbarth.

## Rolau gwasanaethau nyrsio ysgolion

Bydd y model gweithredu ar gyfer plant oed ysgol yng Nghymru, sy'n rhan o raglen Plant Iach Cymru, yn cael ei ddarparu gan wasanaethau nyrsio ysgolion yn GIG Cymru. Mae gwasanaethau nyrsio ysgolion yng Nghymru yn cael eu harwain yn broffesiynol gan uwch nyrsys gyda **chymhwyster nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol** ôl-raddedig mewn nyrsio ysgolion.

Mae amrywiaeth o rolau nyrsio sy'n darparu gwasanaethau nyrsio ysgolion yng Nghymru, waeth beth fo'u lleoliad. Mae cymwysterau, set sgiliau ac arbenigedd y nyrsys yn diffinio pa blant a phobl ifanc maen nhw'n gweithio gyda nhw. Er enghraifft, mae nyrsys sydd â chymhwyster ôl-raddedig arbenigol mewn iechyd cyhoeddus cymunedol (nyrsio ysgolion) yn darparu gwasanaethau ar gyfer ysgolion prif ffrwd a phlant a phobl ifanc a addysgir mewn mannau heblaw mewn ysgol.

Mewn cyferbyniad, mae amrywiaeth o nyrsys plant yn gweithio mewn ysgolion arbennig ac nid oes un rôl nyrs ysgol arbennig wedi'i diffinio yng Nghymru. Oherwydd maint a graddfa'r gwaith sydd ei angen, mae'r gweithlu wedi cael ei nodi fel llif gwaith gweithredu allweddol o'r model gweithredu, gyda'r nod clir o weithio tuag at fwy o gysondeb ledled Cymru dros gyfnod y cyfnod gweithredu.

Yn y model gweithredu newydd, disgrifir rolau nyrsio sy’n rhan o wasanaethau nyrsio ysgolion yng Nghymru fel arfer fel a ganlyn.

### Nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol (nyrsio

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## ysgolion)

Mae nyrsys iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol (nyrsio ysgol) yn weithwyr proffesiynol ar reng flaen iechyd y cyhoedd. Maen nhw'n ymarferwyr annibynnol sy'n ymroi i wella iechyd a lles plant a phobl ifanc. Oherwydd eu dysgu ôl-raddedig a'u profiad, mae ganddynt arbenigedd o ran deall penderfynyddion ehangach iechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ar draws y cymunedau amrywiol y maent yn eu cynorthwyo. Mae ganddynt gysylltiad unigryw ag ysgol uwchradd benodol a'r ysgolion cynradd clwstwr. Maen nhw'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, cymunedau a theuluoedd ar draws tair lefel o gymorth, yn ôl:

- yr angen i atal afiechyd
- amddiffyn iechyd
- hyrwyddo llesiant

## Nyrs gofrestredig (nyrsio ysgolion)

Mae gan y nyrs gofrestredig (nyrsio ysgolion) gyfrifoldeb dirprwyedig i gefnogi'r cynnig cyffredinol a gwell i atal afiechyd, diogelu iechyd a hyrwyddo llesiant. Mae'r nyrs yn gweithio ar ei phen ei hun ac fel rhan o dîm gyda'r hyder i wneud penderfyniadau heb oruchwyliaeth. Mae'r rôl yn cynnwys nodi anghenion iechyd plant oed ysgol, drwy raglen barhaus o:

- wyliadwriaeth iechyd
- asesu
- monitro
- atgyfeirio
- ymyriadau
- gweithio'n effeithiol gyda phlant, eu teuluoedd a'u rhieni/gofalwyr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gweithlu anghofrestredig (nyrsio ysgolion)

Mae'r gweithlu anghofrestredig (nyrsio ysgolion), yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol i ddarparu cymorth clerigol a chlinigol er mwyn darparu gwasanaethau, gan gynnwys cyswllt uniongyrchol â phlant oed ysgol o dan gyfarwyddyd y nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol (nyrsio ysgol) ac aelodau eraill o'r gwasanaeth.

## Nyrsys plant cymunedol a nyrsys mewn ysgolion arbennig

Yn ogystal â'r rolau nyrsio a ddisgrifir uchod, sy'n ymdrin yn bennaf ag elfennau cyffredinol y model gweithredu, mae yna amrywiaeth o rolau nyrsio allweddol hefyd sy'n cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion gofal iechyd cymhleth. Mae'r rolau'n unigryw o ran lefel y cydgysylltu a'r cysylltedd a ddarperir rhwng y tîm o amgylch y plentyn a gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau ehangach. Mae'r nyrsys hyn yn cefnogi'r ysgol i reoli anghenion iechyd a lles y plentyn yn ddiogel, fel bod cyfleoedd dysgu'n cael eu hoptimeiddio, a bod y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gynnwys yng ngweithgareddau'r ysgol.

# Fframwaith deddfwriaethol strategol

Trwy gyflwyno'r model gweithredu newydd, mae'r gwasanaethau nyrsio ysgolion yn ymroi i gyflawni eu dyletswyddau fel rhan o rwymedigaeth ehangach GIG Cymru i ddilyn deddfwriaeth ac ysgogwyr allweddol yng Nghymru.

Mae **Cymru iachach yn gynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol** yng Nghymru.

Daeth **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)** i rym ym mis Ebrill 2016, a'i nod yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

a diwylliannol Cymru. Mae'n ofynnol i GIG Cymru ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill:

- feddwl mwy am y tymor hir
- gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd
- ceisio atal problemau
- defnyddio dull mwy cydgysylltiedig

Mae plant a phobl ifanc yn ganolog i'r ddeddfwriaeth a bydd gwasanaethau nyrsio ysgolion yn sicrhau bod y ffyrdd o weithio wedi'u hymgorffori yn y gwaith o gyflawni'r model gweithredu newydd.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)** yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Integreiddio sydd wrth wraidd y Ddeddf, ac mae iddi oblygiadau i GIG Cymru a'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu gan wasanaethau nyrsio ysgolion.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yw'r sail ar gyfer holl waith Llywodraeth Cymru gyda phlant a phobl ifanc, gyda'r 7 nod craidd ar gyfer datblygu polisi ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i **roi sylw i hawliau plant a nodir yn CCUHP**. Mae Cynllun Hawliau Plant 2014 yn nodi'r trefniadau i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw priodol i hawliau plant wrth arfer unrhyw swyddogaethau.

Mae'r safonau wedi'u cadarnhau gan Lywodraeth Cymru ac yn seiliedig ar CCUHP a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), sy'n rhoi cyfranogiad plant wrth wraidd gwella eu llesiant. Mae'r safonau wedi'u haddasu i'w gwneud yn fwy hygyrch i blant a phobl ifanc anabl o dan yr enw "bod â llais, bod â dewis".

Mae'r **Ddyletswydd Ansawdd yn gyfrifoldeb cyfreithiol** sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r GIG feddwl am sut y bydd eu penderfyniadau'n gwella gofal iechyd yn y dyfodol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd iddynt siarad

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

â'r cyhoedd yn agored a gyda thryloywder ynghylch ansawdd gofal iechyd. Mae gwasanaethau nyrsio ysgolion wedi ymrwymo i ddilyn y Ddyletswydd Ansawdd a byddant yn sicrhau ei bod yn cael ei hystyried yn eu holl brosesau a systemau, ac wrth wneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

Mae **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018)** yn darparu ar gyfer fframwaith statudol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, fframwaith deddfwriaethol unedig i gefnogi pob plentyn o oedran ysgol gorfodol neu is sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Yn unol â **Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (2016)**, mae gan fyrddau iechyd ddyletswydd gyfreithiol i ystyried pwysigrwydd sicrhau lefelau priodol o staff nyrsio ym mhob lleoliad.

Yn ogystal, bydd y **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 i 2024**, **Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**, **Mwy na geiriau 2022 i 2027** a'r **Cynllun Gweithredu LHDTC+** yn cael eu defnyddio gan y gwasanaethau nyrsio ysgolion wrth gyflwyno'r model gweithredu i wreiddio newidiadau a gwerthoedd ystyrlon fel rhan o fywyd Cymru. Rhaid defnyddio Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i ddarparu arweinyddiaeth nyrsio ysgol amlwg ar bob lefel, i gwrdd ag ymrwymiadau presennol i herio hiliaeth systemig a sefydliadol ac wrth ddarparu gwasanaethau teg sy'n briodol yn ddiwylliannol, gan gydnabod croestoriadedd a gwahaniaethau ymhlith grwpiau.

Bydd Mwy na Geiriau 2022 i 2027 yn cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a bydd gwasanaethau nyrsio ysgolion yn cefnogi siaradwyr Cymraeg i dderbyn gofal yn eu hiaith gyntaf.

Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+, a ddatblygwyd gyda'r nod o wneud Cymru'r genedl fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop, yn nodi camau gofal iechyd, gofal cymdeithasol a lles y mae'n rhaid i GIG Cymru eu cyflawni, a bydd gwasanaethau nyrsio ysgolion yn cyflawni eu rhan yn unol â hynny.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Lefelau cefnogaeth haenog

Mae ffocws Plant Iach Cymru ar y cysylltiadau cyffredinol sy'n cael eu darparu gan y gwasanaethau nyrsio ysgol. Yn unol â'r dull cymesuredd cyffredinol, sy'n ddull sy'n sicrhau bod dwysedd gofal iechyd yn cynyddu wrth i lefelau anghenion gofal iechyd gynyddu, mae darparu gwasanaethau nyrsio ysgolion yn dwysáu ar draws 3 lefel o angen.

I grynhoi, y tair lefel a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Rhaglen Plant Iach Cymru oedd:

- cyffredinol: yr ymyrraeth sylfaenol graidd a gynigir i bob plentyn a pherson ifanc, waeth beth fo'r angen
- uwch: ymyriadau ychwanegol yn seiliedig ar asesu a dadansoddi gwytnwch a nodi angen ychwanegol
- dwys: ymyriadau pellach yn seiliedig ar asesiad parhaus a dadansoddiad o fwy o angen

Bydd y gwasanaethau nyrsio ysgolion yn cynllunio'r gwaith o ddarparu cymorth a gynigir i blant, pobl ifanc a theuluoedd gan ddefnyddio dull strwythuredig cyffredinol, estynedig a dwys. Mae'r dull hwn yn helpu gwasanaethau i deilwra'r cymorth i wahanol anghenion yn y boblogaeth, gan sicrhau bod y plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd yn derbyn y lefel fwyaf priodol o ofal yn seiliedig ar anghenion gofal iechyd. Manylir ymhellach ar y lefelau cymorth i blant a phobl ifanc oed ysgol o dan bob un o adrannau perthnasol y model gweithredu.

Yn y tymor hwy a thrwy gam gweithredu'r model gweithredu newydd, bydd GIG Cymru, dan arweiniad Fforwm Cynghori Penaethiaid Ysgolion Nyrsio Cymru Gyfan, yn adolygu goblygiadau'r pum lefel gofal ar gyfer gwasanaethau nyrsio ysgolion yng Nghymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Waeth beth fo'r lleoliad

Bydd y model gweithredu unedig newydd yn cael ei gynnig i bob plentyn oed ysgol beth bynnag fo'i leoliad. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd y cynnig iechyd a datblygu mewn ysgolion arbennig a phrif ffrwd yn cael ei gynnig hefyd i blant a theuluoedd sy'n dewis addysgu gartref, neu sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliad heblaw yn yr ysgol. Bydd yn cael ei gyflwyno trwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys sianeli digidol a chyfeirio plant a phobl ifanc i'r gwasanaeth cywir i ddiwallu eu hanghenion a'u hamgylchiadau. Bydd hyn yn gofyn am weithio mewn partneriaeth â rhannau eraill o GIG Cymru a phartneriaid awdurdodau lleol, gan danlinellu pwysigrwydd dull tîm o amgylch y teulu o ymdrin â datblygiad ac iechyd y cyhoedd.

Fel rhan o'r ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau i gefnogi plant a phobl ifanc drwy gydol oedran ysgol, agwedd bwysig ar rôl gwasanaethau nyrsio ysgolion yw darpariaeth yn y gymuned a gweithio amlasiantaethol gydag awdurdodau lleol a phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus eraill a'r trydydd sector. Nod yr allgymorth cymunedol hwn yw cyfarfod â phlant a phobl ifanc yn y cymunedau y maent yn byw ynddynt a chodi proffil gwasanaethau nyrsio ysgolion. Mae enghreifftiau'n cynnwys digwyddiadau ymgysylltu cymunedol amlasiantaethol a sesiynau galw heibio cymunedol.

## Gweithredu a monitro

Er mwyn cefnogi rhoi'r model gweithredu newydd ar waith, mae GIG Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gyfnod gweithredu o 2 flynedd gan ddechrau ym mis Ebrill 2024. Bydd hyn yn rhoi amser i bob bwrdd iechyd ystyried y gofynion a'r gwahanol ddulliau sy'n bodoli ar hyn o bryd ledled Cymru ac yna eu gweithredu'n llawn. Ar ddiwedd y cyfnod o 2 flynedd ym mis Ebrill 2026, bydd Llywodraeth Cymru a GIG Cymru’n cynnal adolygiad gweithredu.

Bydd gwasanaethau nyrsio ysgolion yn blaenoriaethu'r ffrydiau gwaith canlynol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gweithlu a hyfforddiant

Mae hyn yn cynnwys edrych ar oblygiadau lefel staff nyrsio yn y tymor hwy a'r dull 5 lefel gofal, yn ogystal ag archwilio cyfleoedd ar gyfer:

- swydd-ddisgrifiadau cyson
- ailgynllunio'r gweithlu i ddiwallu anghenion cymysgedd o achosion sy'n newid
- cymysgedd sgiliau mewn timau
- anghenion dysgu a datblygu

## Fframwaith monitro

Datblygu fframwaith monitro cymesur i fesur effaith ac ansawdd y model gweithredu newydd. Bydd hyn yn cynnwys cefnogaeth gan arbenigwyr mewn gwybodaeth a dadansoddi i ddiffinio allbynnau a chanlyniadau clir ar gyfer gwasanaethau nyrsio ysgolion yng Nghymru.

## Digidol a data

Mae yna orddibyniaeth ledled Cymru ar gofnodion papur o hyd. O ganlyniad, mae yna angen brys i sefydlu ffrwd waith ddigidol a data dan arweiniad penaethiaid gwasanaethau nyrsio ysgolion. Bydd hyn yn sbarduno trawsnewid a bydd yn dylanwadu ar yr agenda ddigidol a data ehangach yn GIG Cymru er mwyn sicrhau bod gwasanaethau digidol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys nyrsio ysgolion, yn cael blaenoriaeth. Mae diogelwch cleifion a gwella ansawdd yn ganolog i'r ffrwd waith hon er mwyn sicrhau bod gwasanaethau nyrsio ysgolion yn gallu monitro a mesur effaith eu gwasanaethau a'r canlyniadau i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyfathrebu ac ymgysylltu

Bydd y ffrwd waith hon yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o gyfleoedd i hyrwyddo gwasanaeth nyrsio ysgolion bywiog a modern i Gymru. Y dasg gyntaf ar gyfer y ffrwd waith hon fydd llunio cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu arloesol, gyda'r nod o ddefnyddio sianeli digidol i godi proffil gwasanaethau nyrsio ysgolion.

# Y model gweithredu

Wrth wraidd y model gweithredu mae cyfres o gysylltiadau craidd y bydd y gwasanaethau nyrsio ysgolion yn eu cynnig i blant oed ysgol yng Nghymru, rhwng 5 ac 16 oed. Yn draddodiadol, dyma'r dechrau a diwedd addysg orfodol i'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc.

- Adolygiad iechyd cychwyn yn yr ysgol: 5 oed (cam derbyn).
- Asesiadau o anghenion iechyd y boblogaeth: erbyn diwedd y tymor academaidd cyntaf a'u hadolygu'n flynyddol wedi hynny.
- Ymyrraeth iechyd y cyhoedd: bydd pob clwstwr nyrsio ysgolion yn dewis hyd at 3 maes effaith uchel sy'n cwmpasu oedran ysgol gynradd (5 i 11 mlwydd oed), gan adlewyrchu anghenion iechyd lleol y boblogaeth.
- Addysg cydberthynas a rhywioldeb: 10 i 11 mlwydd oed (blynyddoedd 5 a 6).
- Pontio i'r ysgol uwchradd: 10 i 11 mlwydd oed (blwyddyn 6).
- Addysg ffliw a chynnig brechiad: yn yr ysgol yn flynyddol o'r dosbarth derbyn (blwyddyn 6).
- Un pwynt mynediad i rieni/gofalwyr a theuluoedd: 5 i 11 mlwydd oed (blwyddyn derbyn i flwyddyn 6).
- Diogelu: 4 i 11 mlwydd oed (blwyddyn derbyn i flwyddyn 6). Mae'n cynrychioli lefel ddwys o gefnogaeth lle nodir hynny gan y gwasanaethau nyrsio ysgolion.
- Asesiadau o anghenion iechyd y boblogaeth: 12 i 16 mlwydd oed (blynyddoedd 7 i 11).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Cydberthnasoedd iach: 11 i 12 mlwydd oed (blwyddyn 7).
- Ymyrraeth iechyd y cyhoedd: 2 faes effaith uchel a'r sesiwn cydberthnasoedd iach, 12 i 15 mlwydd oed (blynyddoedd 8 a 10).
- Addysg cydberthynas a rhywioldeb: 13 i 14 mlwydd oed (blwyddyn 9).
- Addysg Papillomavirus dynol (HPV) a chynnig brechlyn dos sengl: 12 i 13 mlwydd oed (blwyddyn 8).
- Pigiad atgyfnerthu yn eu harddegau (brechlyn TD/IPV-MEN-ACWY) addysg a chynnig brechiad: 13 i 14 mlwydd oed (disgyblion blwyddyn 9 yn yr ysgol).
- Pontio i addysg bellach, cyflogaeth: cynnig cyffredinol i bobl ifanc 15 i 16 mlwydd oed (blwyddyn 11).
- Addysg ffliw a chynnig brechiad: yn cael ei gynnig yn flynyddol ar gyfer 11 i 16 mlwydd oed (blynyddoedd 7 i 11).
- Cyfraddau dal MMR: targedu plant / pobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed (blynyddoedd 7 i 11). Mae'r dull yn amrywio ar draws byrddau iechyd ar hyn o bryd. Cyflwynir ar y cyd â Gweithrediaeth GIG Cymru.
- Un pwynt cyswllt: galwch heibio ar gyfer plant / pobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed (blwyddyn 7 i 11).
- Un pwynt mynediad i rieni/gofalwyr a theuluoedd: ar gael i blant / pobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed (blwyddyn 7 i 11).
- Diogelu: ar gyfer plant / pobl ifanc 11 i 16 mlwydd oed (blwyddyn 7 i 11). Mae'n cynrychioli lefel ddwys o gefnogaeth lle nodir hynny gan y gwasanaethau nyrsio ysgolion.

# Mesur effaith

Bydd y model gweithredu newydd yn cael ei fonitro ar gyfer effaith, heb greu baich sylweddol ar wasanaethau presennol. Yn y tymor byr, diffiniwyd cyfres o allbynnau lefel uchel gan y prosiect i helpu i weithredu a monitro'n llwyddiannus. Yn y tymor canolig, bydd ffrwd waith dan arweiniad arweinwyr nyrsio ysgolion uwch yng Nghymru yn datblygu fframwaith canlyniadau cadarn, gyda chymorth arbenigedd mewn mesur canlyniadau iechyd plant.

Bydd y mesurau allbwn yn cynnwys:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- canran cyfradd cwblhau Adolygiadau Iechyd Cychwyn yn yr Ysgol ar gyfer plant sydd â lefelau uwch neu ddwys o angen gofal (nifer yr Adolygiadau a gwblhawyd fel canran o gyfanswm lefel uwch a dwys gofal y boblogaeth oedran derbyn)
- canran yr asesiadau cyntaf o anghenion iechyd y boblogaeth a gwblhawyd erbyn diwedd y flwyddyn academaidd gyntaf (diwedd mis Rhagfyr)
- canran cwblhau adolygiadau blynyddol asesiadau o anghenion iechyd y boblogaeth
- 100% o blant / pobl ifanc sydd â lefel uwch neu ddwys o ofal gyda chydlynydd gofal penodedig
- nifer y sesiynau cydberthnasoedd iach sy'n cael eu cynnal bob blwyddyn
- lefelau a adroddwyd o gydymffurfio â phob safon genedlaethol ar gyfer imiwneiddio
- allbynnau brechiad ac imiwneiddio a adroddwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
- canran yr asesiadau o anghenion iechyd cychwynnol a gwblhawyd cyn y gynhadledd achos gychwynnol ar gyfer diogelu (targed 100%)
- nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (gan gynnwys addysg ddewisol yn y cartref) a gyrhaeddwyd gan y gwasanaethau nyrsio ysgolion
- nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn sesiynau galw heibio
- canran cwblhau gweithgaredd rhaglen mesur plant yn erbyn poblogaeth oedran derbyn
- nifer y plant sy'n cael eu cefnogi a'u dilyn gan y gwasanaethau nyrsio ysgolion oherwydd meini prawf pwysau ac uchder
- cynnydd canran mewn ymwybyddiaeth o wasanaethau nyrsio ysgolion (arolygon rhieni gan wasanaethau nyrsio ysgolion)

# Tîm o amgylch y plentyn

Mae tîm o amgylch y plentyn yn ymadrodd a ddefnyddir i ddisgrifio dull ataliol a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol gwasanaethau cyhoeddus, yn aml mewn cyd-destun amlasiantaethol, i gefnogi plentyn neu berson ifanc gyda'i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

anghenion.

Yng nghyd-destun y model gweithredu, mae hyn yn cyfeirio at eu hanghenion iechyd a lles. Mae tîm o amgylch y plentyn yn dîm amlasiantaethol rhithwir sy'n cynnwys y plentyn / person ifanc, y teulu a'r gweithwyr proffesiynol sy'n adnabod y plentyn orau. Ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd cymhleth sydd angen haen well neu ddwys o gefnogaeth, byddant yn ffurfio tîm craidd, gan weithio gyda'i gilydd, i ddiwallu anghenion unigol y plentyn. Mae tystiolaeth hirsefydlog sy'n cefnogi effeithiolrwydd y dull hwn ar gyfer plant a phobl ifanc, yn enwedig i'r rhai ag anghenion iechyd cymhleth.

O fewn y model gweithredu hwn, rydym yn canolbwyntio'n benodol ar ddull tîm ysgol o amgylch y plentyn. Pan fydd cynrychiolydd gwasanaethau nyrsio ysgolion yn ymgymryd â rôl cydlynu gofal (sydd eisoes wedi'i nodi yn **rhan 2 y fframwaith ar gyfer nyrsio mewn ysgolion: nyrsio mewn ysgolion arbennig**), byddant yn ymgysylltu â chymysgedd o weithwyr proffesiynol o'r meysydd canlynol, yn ôl yr angen:

- gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a therapyddion, fel ffisiotherapyddion neu therapyddion galwedigaethol
- pediatregwyr
- ymarferwyr cyffredinol ac ymarferwyr gofal sylfaenol, fel nyrsys practis
- tîm a/neu nyrsys anabledd dysgu neu iechyd meddwl emosiynol
- athrawon / cynrychiolwyr ysgol
- ymarferwyr cymorth cynnar
- ymarferwyr gofal eilaidd a gofal trydyddol, fel meddygon ysbyty neu nyrsys arbenigol
- cynrychiolwyr amlasiantaethol eraill fel y bo'n briodol

# Gwybodaeth i rieni

Yn 2017, lansiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru **Pob Plentyn Cymru**, gyda gweledigaeth o greu’r brand i'w ddefnyddio ar gyfer gwybodaeth iechyd yn y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

blynyddoedd cynnar (0 i 7 oed fel arfer) ar gyfer teuluoedd yng Nghymru. Mae cynnig gwybodaeth rhieni newydd Pob Plentyn Cymru wedi cael ei rannu'n 4 adnodd annibynnol sy'n cwmpasu:

- eich beichiogrwydd a genedigaeth (cyhoeddwyd gwanwyn 2023)
- newydd-anedig i 2 oed (bydd ar gael Ionawr 2024)
- 2 oed i gychwyn yn yr ysgol
- 4 i 7 oed

Yn ogystal, mae'r gwasanaethau nyrsio ysgolion yn darparu amrywiaeth o wybodaeth drwy sianeli digidol i blant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr ar gamau allweddol eu taith drwy oedran ysgol. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys:

- pecyn croeso yn 4 i 5 mlwydd oed
- gwybodaeth am dyfu i fyny a glasoed
- gwybodaeth i bobl ifanc sy'n paratoi i adael addysg orfodol ar gyfer gwaith, hyfforddiant neu addysg bellach
- gwybodaeth iechyd y cyhoedd allweddol drwy gydol yr oedran ysgol mewn perthynas â'r materion iechyd y cyhoedd effaith uchel perthnasol i'r ysgol neu'r ardal ehangach neu mewn ymateb i angen iechyd cyhoeddus

Mae'r gwasanaethau nyrsio ysgolion yn cyfeirio plant a phobl ifanc at wybodaeth sy'n briodol i'w hoedran hefyd i'w cefnogi i wneud dewisiadau ffordd o fyw iachach a mwy diogel wrth iddynt dyfu i fyny a gadael addysg orfodol.

# Rhan 2: adolygiad iechyd cychwyn yn yr ysgol

# Adolygiad iechyd cychwyn yn yr ysgol

## Pwrpas ac amcanion

Diben yr adolygiad iechyd cychwyn yn yr ysgol yw:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- asesu anghenion iechyd y plentyn
- hyrwyddo iechyd a lles y cyhoedd
- cefnogi a galluogi plant i gyflawni eu potensial yn llawn
- y broses o drosglwyddo gofal o ymweliadau iechyd i wasanaethau nyrsio ysgolion

Bydd gan bob plentyn oed ysgol fynediad at nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol (nyrsio ysgol) y gellir cysylltu â hi am gyngor a chefnogaeth.

Bydd pob plentyn sy'n 5 mlwydd oed gydag angen iechyd heb ei ddiwallu a nodwyd, fel imiwneiddiadau heb eu gweinyddu, yn cael ei ofal wedi'i drosglwyddo'n ffurfiol i'r nyrs a enwir yn y gwasanaethau nyrsio ysgolion gan yr ymwelydd iechyd.

# Pecyn croeso cychwyn yn yr ysgol

Bydd holl rieni/gofalwyr plant 5 oed yn derbyn pecyn croeso digidol o wybodaeth cychwyn yn yr ysgol yn ystod eu tymor cyntaf. Gofynnir i'r ysgol ddosbarthu'r pecynnau digidol i bob plentyn sy'n mynychu ysgolion.

Bydd unrhyw blentyn sy'n dewis derbyn addysg gartref yn derbyn y pecyn croeso gan y gwasanaeth nyrsio ysgolion, gan gyflwyno'r gwasanaeth a darparu'r pecyn croeso digidol drwy ddull priodol.

Bydd y pecyn digidol yn cynnwys:

- trosolwg o'r gwasanaethau nyrsio ysgolion
- llythyr croeso i rieni/gofalwyr gan gynnwys:
  - taflen gwasanaethau nyrsio ysgolion gan gynnwys dolen i fideos croeso
  - nodi'r nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol a enwir (SCPHN SN) a sut y gellir cysylltu â'r person hwn
  - nodi'r nyrs mewn ysgolion arbennig a manylion cyswllt
  - manylion am sut y gall teuluoedd gael mynediad i wefannau'r gwasanaethau nyrsio ysgolion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

    - dolenni defnyddiol a thaflenni digidol
- gwybodaeth am:
    - 10 cam i bwysau iach
    - sgrinio taldra, pwysau a golwg gan gynnwys sut y bydd canlyniadau'n cael eu rhannu a sut y gellir eu cyrchu
    - blwch cinio iach, pwysigrwydd hydradu/maeth
    - rhaglen imiwneiddio oed ysgol gan gynnwys proses gydsynio
    - rhaglen mesur plant
    - sut gall rhieni optio allan o raglen sgrinio taldra, pwysau a golwg a mesur plant

# Oedran pontio i’r ysgol

Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng y gwasanaethau ymwelydd iechyd a'r gwasanaethau nyrsio ysgolion er mwyn sicrhau pontio'n rhwydd i addysg, waeth beth fo'u lleoliad.

Caiff pob plentyn ei asesu gan yr ymwelydd iechyd a chânt lefel o ofal wedi'i neilltuo iddynt. Bydd gofal unrhyw blant sydd â lefel uwch neu ddwys yn cael ei drosglwyddo'n ffurfiol i'r nyrs ysgol iechyd cyhoeddus gymunedol arbenigol a enwir yn 5 oed.

Ar gyfer plant mewn ysgolion arbennig, y nyrs mewn ysgolion arbennig fydd yn gyfrifol am gydlynu'r gofal. Lle nad oes nyrs wedi'i lleoli mewn ysgol arbennig, bydd y rôl cydlynu gofal yn cael ei throsglwyddo i'r tîm anabledd plant.

Bydd yr ymwelydd iechyd yn hysbysu'r teulu bod gofal yn cael ei drosglwyddo i'r gwasanaethau nyrsio ysgolion pan fydd eu plentyn yn 5 oed. Bydd yr ymwelydd iechyd yn rhoi manylion i rieni/gofalwyr hefyd am sut y gallant gysylltu â'r gwasanaethau nyrsio ysgolion.

Dylai plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol neu sy'n cael eu haddysgu gartref yn ddewisol gael eu trosglwyddo i'r nyrs briodol a enwir yn y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gwasanaethau nyrsio ysgolion.

## Trosglwyddo gofal i ysgolion arbennig

Gall plant sy'n mynd i ysgolion arbennig ddechrau yn yr ysgol cyn 5 oed. Bydd y gwasanaethau ymwelwyr iechyd yn parhau i fod yn ddeiliad llwyth achosion ar gyfer y plant hyn nes iddynt gyrraedd 5 oed, pan fydd gofal yn cael ei drosglwyddo i'r gwasanaethau nyrsio ysgolion. Bydd y nyrs mewn ysgolion arbennig yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau ymwelwyr iechyd a nyrsio plant cymunedol er mwyn sicrhau bod eu gofal yn cael ei gydlynu.

## Cydlynu gofal mewn ysgolion arbennig

Bydd plant a phobl ifanc ag anghenion gofal iechyd cymhleth yn cael eu cefnogi gan gydlynydd gofal yn y gwasanaethau nyrsio ysgolion. Bydd gwasanaeth cydlynu gofal yn cael ei gynnig i bob plentyn a pherson ifanc oed ysgol sydd ag anghenion gofal iechyd cymhleth ac sydd â lefel o ofal uwch neu ddwys a nodwyd.

Nod cydlynu gofal yw nodi'n rhagweithiol a chydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill i wneud y cysylltiadau cywir gan arwain at ddarparu'r gofal mwyaf priodol ar yr adeg gywir. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r plentyn / person ifanc a rhieni/ gofalwyr i lywio'r system iechyd a gofal, fel eu bod yn dod yn fwy actif wrth reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain lle bo hynny'n bosibl. Mae'r cydlynydd gofal yn fedrus wrth asesu ac ymateb i anghenion gofal iechyd sy'n newid a chydlynu cymorth unwaith eto i reoli newidiadau.

## Adolygiad imiwneiddio

Bydd statws imiwneiddio pob plentyn yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau eu bod

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

wedi cael mynediad i'r rhaglen imiwneiddio lawn cyn ysgol. Bydd y gwasanaethau nyrsio ysgolion yn sicrhau bod teuluoedd yn cael gwybod sut maen nhw'n cael mynediad i unrhyw imiwneiddiadau sydd heb eu gweinyddu.

## Sgrinio taldra, pwysau a golwg

Bydd pob rhiant yn cael gwybodaeth am y rhaglen sgrinio twf a'r rhaglen golwg genedlaethol ar gyfer pob plentyn 4 i 5 mlwydd oed (blwyddyn derbyn) gan gynnwys eu taldra, eu pwysau a'u golwg.

Mae pob plentyn sy'n mynychu dosbarth derbyn mewn unrhyw ysgol yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, yn gymwys i gael eu sgrinio.

Bydd plant sy'n colli'r sgrinio yn y dosbarth derbyn, am unrhyw reswm, yn cael cynnig sesiynau "dal i fyny" ym mlwyddyn 1, gan y gwasanaethau nyrsio ysgolion.

Bydd plant sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol neu sy'n cael eu haddysgu gartref yn ddewisol yn cael eu cyfeirio at wasanaethau meddygon teulu ac optegwyr gan wasanaethau nyrsio ysgolion drwy'r pecyn croeso.

Yn y rhan fwyaf o achosion yng Nghymru, nid yw sgrinio clyw (y cyfeirir ato hefyd fel awdioleg) yn cael ei reoli gan wasanaethau nyrsio ysgolion ac felly mae y tu allan i gwmpas y model gweithredu newydd.

## Cyffredinol

Bydd gwasanaethau nyrsio ysgolion yn asesu risg, yn seiliedig ar y wybodaeth a gawsant o drosglwyddo gofal gan wasanaethau ymwelwyr iechyd.

Bydd gwasanaethau nyrsio ysgolion yn adolygu unrhyw ddogfennau a drosglwyddwyd gan yr ymwelydd iechyd sy'n ymwneud â'r plentyn ac yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gweithredu ar unrhyw anghenion iechyd cyhoeddus sydd heb eu diwallu (er enghraifft imiwneiddiadau plentyndod heb eu gweinyddu).

Bydd cyngor a chymorth yn cael eu cynnig os bydd pryderon yn cael eu hadrodd neu eu nodi.

Bydd gwybodaeth yn cael ei darparu i rieni ar y rhaglenni sgrinio twf a golwg gan gynnwys sut i gael mynediad at fesuriadau a wnaed neu optio allan.

Bydd cyngor a chymorth yn cael eu cynnig i bob teulu yn unol â llwybrau.

Bydd plant a phobl ifanc mewn ysgolion arbennig yr aseswyd eu bod angen lefel cymorth cyffredinol angen lefel dwysedd isel o gydlynu gofal. Bydd hyn yn canolbwyntio ar y nyrs mewn ysgolion arbennig yn gweithio mewn partneriaeth â'r nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol (nyrsio ysgol) er mwyn sicrhau bod y model gweithredu'n cael ei ddarparu.

## Gwell

Bydd plant y nodwyd bod ganddynt fynegai màs y corff (BMI) sy'n hafal i neu'n uwch na'r 91ain canradd yn cael eu gweld wedyn gan wasanaethau nyrsio ysgolion yn unol â'r llwybr rheoli pwysau a byddant yn cael cynnig rhagor o gefnogaeth, cyfeirio ac atgyfeiriadau lle bo'n briodol.

Gellir cynnal asesiad iechyd os yw'n briodol gyda chaniatâd rhieni.

Gwahoddir rhieni i drafod anghenion iechyd a lles eu plentyn yn ystod y broses hon.

Os oes gan y bwrdd iechyd wasanaeth rheoli pwysau, bydd manylion am sut y gellir atgyfeirio atyn nhw’n cael eu rhannu â rhieni neu fel arall yn cael eu gwneud gan weithwyr proffesiynol.

Bydd sesiynau iechyd cyhoeddus wedi'u targedu i ysgolion/cymunedau yn cael eu cynnig lle nodir anghenion iechyd o ganlyniadau a thueddiadau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Bydd plant a phobl ifanc sydd angen ymyrraeth ychwanegol yn derbyn cymorth ychwanegol unigol, ymyrraeth gynnar ar ôl nodi anghenion ychwanegol, a/neu reoli anghenion o dri i dro.

## Dwys

Bydd gwasanaethau nyrsio ysgolion yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau eraill yn unol â gweithdrefnau diogelu Cymru pan fydd anghenion iechyd heb eu diwallu'n cael eu trosglwyddo gan yr ymwelydd iechyd neu y nodir pryderon newydd.

Cynhelir asesiad iechyd os tynnir sylw at bryderon diogelu.

Bydd atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol priodol yn cael eu gwneud yn ôl yr angen, er enghraifft at ddietegydd.

Bydd gwasanaethau nyrsio ysgolion yn cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd sydd ag anghenion iechyd mwy cymhleth a'r rhai ag anghenion iechyd ychwanegol a nodwyd wrth sgrinio. Bydd hyn yn cynnwys rôl cydlynu gofal iechyd er mwyn sicrhau bod yr anghenion iechyd yn cael eu diwallu yn unol â'r llwybr taldra, pwysau a golwg perthnasol.

Yn aml, bydd gan blant a phobl ifanc sydd angen lefel ddwys o gymorth anghenion iechyd cymhleth lluosog a ffactorau risg seicogymdeithasol, y mae angen cymorth arbenigol ar eu cyfer. Yn aml, bydd gwasanaethau lluosog yn ymwneud â'u gofal a bydd cydlyniad eu gofal yn fwy dwys.

Bydd y cydlynydd gofal yn hollbwysig wrth arwain ar gynllun gofal a rennir er mwyn diwallu anghenion hybu ac amddiffyn iechyd y plentyn yn ogystal â rheoli eu cyflwr cronig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Rhaglen mesur plant

Yn ogystal â sgrinio ar gyfer taldra, pwysau a golwg ar oedran cychwyn yn yr ysgol, mae gwasanaethau nyrsio ysgolion yn cefnogi'r gwaith a arweinir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd i fonitro trywydd tymor hwy datblygiad twf plant (talda a phwysau).

Drwy'r **rhaglen mesur plant**, bydd pob plentyn sy'n mynychu dosbarth derbyn, gan gynnwys ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, yn cael mesur eu taldra a'u pwysau yn unol â'r safonau cenedlaethol ar gyfer y rhaglen genedlaethol.

# Rhan 3: asesiad o anghenion iechyd y boblogaeth

## Asesiad o anghenion iechyd y boblogaeth

Mae asesiad o anghenion iechyd a lles plant a phobl ifanc yn fan cychwyn pwysig i gynllunio gwasanaethau er mwyn gwella iechyd a lles yn ystod oedran ysgol. Y ffocws yw'r boblogaeth plant a phobl ifanc ar gyfer y clwstwr o ysgolion y mae gan wasanaethau nyrsio ysgol gyfrifoldeb amdanynt, yn hytrach nag asesiad o anghenion iechyd ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc.

Wrth gynnal asesiadau o anghenion iechyd poblogaeth, mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn gwasanaethau nyrsio ysgolion yn deall y cryfderau a'r heriau i iechyd a lles yn y boblogaeth, gan gynnwys nodi anghenion ychwanegol grwpiau agored i niwed fel:

- plant mewn gofal
- teithwyr
- ceiswyr lloches

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- ffoaduriaid
- y rhai ag anghenion iechyd cymhleth

Mae gwasanaethau nyrsio ysgolion yn codi ymwybyddiaeth o'r anghenion a nodwyd yn lleol, er enghraifft drwy bresenoldeb galw heibio, ac yn cefnogi datblygiad ymyriadau iechyd cyhoeddus cyffredinol neu wedi'u targedu mewn partneriaeth â disgyblaethau ac asiantaethau proffesiynol eraill.

Bydd gwasanaethau nyrsio ysgolion yn cynnal asesiad o anghenion iechyd y boblogaeth ar gyfer pob un o'r clwstwr o ysgolion a ddyrennir iddynt. Bydd yr asesiad yn ystyried anghenion iechyd pob plentyn a pherson ifanc o oedran ysgol, waeth beth fo'u lleoliad.

Bydd asesiad o anghenion iechyd y boblogaeth yn cael ei gwblhau bob blwyddyn yn ystod tymor cyntaf y flwyddyn academaidd (Medi i Rhagfyr). Mae hyn yn galluogi gwasanaethau nyrsio ysgolion i ystyried ffynonellau gwybodaeth eraill sydd gan ysgolion a gwasanaethau cyhoeddus eraill, er enghraifft asesiadau llesiant, a gynhyrchir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae angen adolygu'r asesiadau hyn yn flynyddol i adlewyrchu unrhyw bryderon neu broblemau iechyd cyhoeddus sy'n dod i'r amlwg. Mae cyfoeth o ddata meintiol ac ansoddol ar gael i wasanaethau nyrsio ysgolion am iechyd y boblogaeth leol y gellir ei gulhau i'r ardal leol a'i gymharu â data rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer cymharu a meincnodi.

Dyma rai dangosyddion:

- plant mewn tlodi (o dan 16 oed)
- y nifer sy'n manteisio ar imiwneiddio
- tynnu dannedd
- gordewdra mewn plant
- derbyniadau ar gyfer cyflyrau sy'n benodol i alcohol (dan 18 oed)
- cyfraddau ysmygu a fêpio
- cyfraddau beichiogrwydd pobl ifanc yn eu harddegau
- cyfraddau absenoldeb mewn addysg

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Gan ddefnyddio'r asesiad o anghenion iechyd y boblogaeth, bydd gwasanaethau nyrsio ysgolion yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio, eu datblygu a'u darparu'n effeithiol i wella canlyniadau iechyd a llesiant y cyhoedd ar gyfer y boblogaeth darged. Yn unol â'r model gweithredu, bydd meysydd effaith uchel allweddol sy'n adlewyrchu angen iechyd y boblogaeth yn cael eu blaenoriaethu a'u nodi.

Tra'n cael ei arwain gan wasanaethau nyrsio ysgolion, mae'r dull hwn yn cefnogi cydweithio a darparu integredig. Bydd yn cael ei ddarparu gan dimau gyda gwahanol gymysgedd o sgiliau, gyda gweithwyr iechyd yn gweithio ochr yn ochr ag aelodau eraill o weithlu ehangach GIG Cymru a gwasanaethau cyhoeddus.

# Rhan 4: ymyriadau iechyd cyhoeddus

# Ymyriadau iechyd cyhoeddus

## Pwy sydd fwyaf mewn perygl

Ardaloedd effaith uchel yw'r rhai lle gellir gwneud y gwahaniaeth mwyaf i iechyd plant a phobl ifanc trwy ddarparu'r model gweithredu. Gall hyn fod yn eang a dynamig wrth i faterion iechyd cyhoeddus newid a heriau newydd ddod i'r amlwg.

Mae plant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd cymhleth mewn perygl o ganlyniadau gwaeth o ran iechyd a lles, er y bydd y risg hon yn cael ei dylanwadu gan ffactorau amddiffynnol lluosog fel dynameg teuluol cefnogol. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc ag:

- anabledd corfforol
- anabledd dysgu, anhwylder ar y sbectrwm awtistig a niwroamrywiaeth
- trallod emosiynol
- gwendidau eraill
- plant sy'n derbyn gofal

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Asesiadau anghenion iechyd

Mae llunio asesiad anghenion iechyd yn ddull i wasanaethau nyrsio ysgolion gael dealltwriaeth fanylach o'u poblogaeth a'r anghenion sy'n bodoli, gyda'r nod o alluogi cynllunio, blaenoriaethu a darparu gwasanaethau wedi hynny mewn modd mwy effeithiol er mwyn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Gall y meysydd effaith uchel hyn gynnwys:

- ymddygiadau iechyd a ffordd o fyw
- ysmygu a fêpio
- iechyd rhywiol
- meithrin gwydnwch
- lleihau ymddygiadau risg
- plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd cymhleth

Bydd plant a phobl ifanc sydd ag anghenioniechyd mwy cymhleth angen asesiad iechyd unigol. Bydd hyn yn cael ei gwblhau os nodir anghenion iechyd heb eu diwallu wrth gychwyn yn yr ysgol, neu wedi hynny, a chânt eu hadolygu'n flynyddol. Bydd yr asesiad iechyd yn cael ei arwain gan nyrsys ond bydd yn cynnwys ymgysylltu agos â'r rhiant/gofalwr gan ddefnyddio dull ehangach y tîm o amgylch y plentyn. Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru a nodwyd â lefel uwch neu ddwys o ofal gydlynydd gofal wedi'i neilltuo iddo gan GIG Cymru.

O fewn y cyfnod gweithredu, bydd asesiad iechyd safonol Cymru gyfan ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion gofal iechyd cymhleth yn cael ei ddatblygu. Bydd yr asesiad unigol hwn yn ymdrin â chronoleg o ddigwyddiadau iechyd, cysylltiadau teuluol, anghenion iechyd a nodwyd, gan gynnwys anghenion iechyd cyhoeddus, ac yn canolbwyntio ar gryfderau a gwendidau'r plentyn neu'r person ifanc.

Bydd yr asesiad a gwblhawyd mewn cydweithrediad â rhieni/gofalwyr, ynghyd ag adroddiadau gan weithwyr proffesiynol eraill, yn galluogi gwasanaethau nyrsio ysgolion a'r tîm o amgylch y plentyn i ddatblygu cynllun gofal iechyd ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gyfer y plentyn / person ifanc ag anghenion cymhleth. Dylai hyn gynnwys sefydlu'r hyn sy'n bwysig i'r plentyn a'r rhieni/gofalwyr a deall eu nodau. Bydd hyfforddiant, canllawiau a chymorth ar gyfer plant a theuluoedd sydd â chyflyrau iechyd cymhleth a hirdymor yn cael eu cynllunio a'u hwyluso gan y tîm o amgylch y plentyn, gyda'r gwasanaethau nyrsio ysgolion yn arwain ar gydlynu gofal.

## Lefelau ymyrraeth

Y model gweithredu yw'r ddarpariaeth gyffredinol genedlaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant oed ysgol fel rhan o Raglen Plant Iach Cymru. Bydd lefel yr ymyrraeth, boed yn gyffredinol, yn uwch neu'n ddwys, yn cael ei diffinio gan yr asesiadau poblogaeth, cymunedol ac anghenion unigol a gynhelir gan y gwasanaethau nyrsio ysgolion. Mae pob plentyn oed ysgol yn cael cynnig gwasanaethau cyffredinol, mae plant a phobl ifanc sydd â lefelau uwch neu ddwys o angen iechyd yn cael cynnig cymorth ychwanegol i ddiwallu'r anghenion hynny.

### Cyffredinol

Bydd elfennau craidd y model gweithredu sydd ar gael i bob teulu sydd â phlant / pobl ifanc rhwng 5 ac 16 oed yn cynnwys:

- iechyd a datblygiad
- adolygiad iechyd wrth gychwyn yn yr ysgol
- sgrinio a gwyliadwriaeth

Bydd imiwneiddiadau yn cynnwys:

- gall nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (nyrsio ysgol) gynnig gwybodaeth am negeseuon iechyd cyhoeddus allweddol gan gynnwys imiwneiddio

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- rhaglen imiwneiddio oed ysgol

Mae meysydd effaith uchel, dan arweiniad asesiad o anghenion iechyd y boblogaeth, yn cynnwys:

- hydradu
- maeth
- rhoi'r gorau i ysmygu/fêpio
- clefydau heintus
- dewisiadau ffordd iach o fyw

Safeguarding includes:

- early detection / awareness of adverse childhood experiences

Mae diogelu yn cynnwys:

- canfod cynnar / ymwybyddiaeth o brofiad niweidiol yn ystod plentyndod

Mae iechyd a lles emosiynol yn cynnwys:

- cydberthnasoedd iach
- llencyndod a thyfu i fyny / hylendid / newidiadau i'r corff gan gynnwys mislif a llawr y pelfis
- cymorth pontio ar adegau allweddol gan gynnwys:
  - meithrin i'r dosbarth derbyn
  - blwyddyn 6 i’r ysgol uwchradd
  - pontio i fod yn oedolyn
- sesiynau galw heibio yn yr ysgol
- cefnogaeth iechyd a lles emosiynol

Mae addysg gydberthynas a rhywioldeb yn cynnwys:

- heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
- atal cenhedlu
- cynllun dosbarthu condomau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Bydd y cynnig cyffredinol yn parhau i gael ei gynnig gydag addasiadau a wneir fel y bo'n briodol yn seiliedig ar asesiadau iechyd unigol ar gyfer plant ag anghenion iechyd cymhleth.

## Lefel uwch

Bydd y lefel uwch o gymorth yn cynnwys dull mwy rhagweladwy, wedi'i asesu a'i fynegi sy'n seiliedig ar anghenion gydag ymyriadau cynnar i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol. Darperir y cymorth iechyd cyhoeddus wedi'i dargedu drwy gydol yr oedran ysgol gorfodol i blant / pobl ifanc 5 i 16 mlwydd oed (blynyddoedd 1 i 11).

Mae hefyd yn darparu cefnogaeth wedi'i thargedu ar sail tystiolaeth i blant a phobl ifanc yn y meysydd canlynol.

O dan iechyd a datblygiad, bydd y lefel uwch o gymorth yn darparu:

- asesiadau iechyd (i nodi anghenion iechyd heb eu diwallu)
- dilyniant o adolygiad iechyd cychwyn yn yr ysgol/sgrinio a gwyliadwriaeth/ atgyfeirio i wasanaethau arbenigol

O ran imiwneiddiadau, bydd y lefel uwch o gefnogaeth yn:

- cymorth gyda brigiadau o achosion/pandemigau oedran ysgol, er enghraifft, brigiadau o achosion polio neu'r frech goch, gan weithio gydag asiantaethau partner

Mae iechyd y cyhoedd yn cynnwys:

- maeth a rheoli pwysau
- iechyd y bledren a'r coluddyn
- iechyd deintyddol
- camddefnyddio sylweddau
- atgyfeirio at wasanaethau arbenigol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae iechyd a lles emosiynol yn cynnwys:

- iechyd a lles emosiynol cymorth un i un
- atgyfeirio at wasanaethau arbenigol

Mae pryderon diogelu yn cynnwys:

- asesiad iechyd i nodi anghenion iechyd heb eu diwallu
- atgyfeirio at wasanaethau arbenigol

O ran iechyd rhywiol, bydd y lefel uwch o gefnogaeth yn:

- cyfeirio am gymorth pellach neu atgyfeirio at wasanaethau arbenigol

Gall plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth brofi gorbryder a hwyliau isel oherwydd eu bod yn teimlo'n wahanol i eraill a gall eu hiechyd meddwl emosiynol gael ei effeithio'n negyddol gan mai eu hanghenion iechyd corfforol yw'r ffocws i weithwyr proffesiynol. Efallai y bydd ganddynt anawsterau dysgu a/neu gyfathrebu. Mae tystiolaeth hefyd bod plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd cymhleth ac anabledd mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin. Felly, i gydnabod yr anghenion gofal iechyd ychwanegol a'r risg, bydd sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb mewn ysgolion arbennig yn cael eu cynnig. Lle bo angen, bydd y gwasanaethau nyrsio ysgolion yn gofyn am gyngor gan nyrsys anabledd dysgu, i gefnogi addasiadau angenrheidiol wrth gyflwyno'r sesiynau hyn.

Bydd y gwasanaethau nyrsio ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr a'r tîm o amgylch y plentyn, i gefnogi'r meysydd effaith uchel a'r anghenion iechyd unigol a nodwyd. Gall hyn gynnwys cysylltu â nyrsys anabledd dysgu a gwasanaethau ehangach. Efallai y bydd y plentyn yn gallu cael ei gamu i lawr i'r llwybr cyffredinol unwaith y bydd anghenion yn cael eu cefnogi.

## Dwys

Mae'r penderfyniad i ddarparu'r lefel uchaf hon o gymorth yn cael ei arwain gan

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

yr asesiad gofal iechyd unigol a chymhlethdod/dwyster cyffredinol angen iechyd. O ganlyniad, gall adnabod anghenion dwys gynnwys:

- atgyfeirio at wasanaethau arbenigol
- pryderon diogelu
- cymorth cofleidiol i'r plentyn a'r teulu gyda'r gwasanaethau nyrsio ysgolion yn ymgymryd â chydlynu gofal dwysedd uwch yn y tîm ehangach o amgylch y plentyn
- efallai y bydd angen gofal a chymorth cyfannol sy'n canolbwyntio ar y teulu i gefnogi gwytnwch y teulu cyfan, gyda mewnbwn amlasiantaethol ac atgyfeiriad arbenigol

# Rhan 5: cefnogi plant drwy oedrannau a chyfnodau ysgol

## Cefnogi plant drwy oedrannau a chyfnodau ysgol

### Pam ei fod yn bwysig

Un o rolau allweddol y gwasanaethau nyrsio ysgolion yw cefnogi plant wrth iddynt symud drwy wahanol gyfnodau bywyd ysgol, fel dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf, neu symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd. Cyfeirir atynt yn y gwasanaethau cyhoeddus fel "pontio", mae'r cyfnodau allweddol hyn ym mywyd plentyn neu berson ifanc yn gyfleoedd hanfodol i gefnogi datblygiad a lles parhaus. Mae'r pwyntiau pontio'n wahanol i blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol a'r rhai mewn ysgolion arbennig, fodd bynnag, mae pwyntiau pontio'n parhau yn nhermau'r cwricwlwm neu yn nhermau datblygiad er efallai na fydd y lleoliad yn newid ac i rai plant / pobl ifanc a addysgir gartref yn ystod blynyddoedd cynradd, gallant bontio i addysg uwchradd prif ffrwd, er enghraifft.

Felly, mae pwyntiau pontio yn addysg plentyn / person ifanc yn cyfeirio at amser

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

arwyddocaol lle mae plentyn yn symud o un lefel addysgol a/neu leoliad i un arall.

Mae cefnogi plant / pobl ifanc a rhieni/gofalwyr i feddwl am sut maen nhw'n rheoli eu hymddygiad eu hunain/plentyn yn rhan o rôl y gwasanaethau nyrsio ysgolion. Byddant yn darparu cymorth drwy nifer o ddulliau gweithredu, fel:

- gwaith grŵp
- sesiynau un i un
- gweithgaredd yn y dosbarth

Byddant yn cyflwyno sesiynau iechyd cyhoeddus i drafod y pynciau hyn a darparu gwybodaeth i annog plant a phobl ifanc i wneud dewisiadau iachach gwybodus trwy eu taith drwy gamau ysgol, waeth beth fo'u lleoliad.

Rydym yn edrych ar bwyntiau pontio allweddol ar gyfer plant oed ysgol yn yr adrannau nesaf.

## Cartref, meithrinfa neu warchodwr plant i'r ysgol gynradd

Gall pontio fod yn amser cyffrous i blant, ond gall fod yn gyfnod heriol i rai plant hefyd a allai fod angen cymorth ychwanegol wrth iddynt ddod yn fwy annibynnol ar y teulu a datblygu eu potensial dysgu gan gynnwys sut i gymdeithasu ag eraill.

Bydd gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill, fel ymwelwyr iechyd, yn allweddol i nodi anghenion iechyd heb eu diwallu er mwyn sicrhau pontio di-dor a sicrhau llifo i mewn i wasanaethau nyrsio ysgolion a sicrhau bod cymorth parhaus yn cael ei ddarparu i'r plentyn a'r teulu. Mae hyn yn cael ei drafod yn fanwl yn adolygiad iechyd cychwyn yn yr ysgol y model gweithredu.

Bydd pob plentyn 5 oed yn cael adolygiad iechyd wrth gychwyn yn yr ysgol, gan

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

y bydd rhan o'r adolygiad yn cael ei drosglwyddo i'r gwasanaethau nyrsio ysgolion o’r gwasanaeth ymwelwyr iechyd. Bydd gwasanaethau'n cael eu darparu gan y gwasanaethau nyrsio ysgolion drwy lefel haenog o ymyriadau iechyd cyhoeddus yn seiliedig ar angen.

## Ysgol gynradd neu wedi'i addysgu gartref i'r ysgol uwchradd

Wrth i blant a phobl ifanc symud i mewn oedran ysgol uwchradd a mynd drwyddo, bydd llawer ohonynt yn cyrraedd eu glasoed. Gall glasoed a'r newidiadau sy'n digwydd yn ystod y cyfnod hwn, yn emosiynol ac yn gorfforol, fod yn arbennig o heriol. Gall plant a phobl ifanc ddechrau arbrofi gydag ymddygiad cymryd risg fel:

- fêpio
- ysmygu
- camddefnyddio alcohol
- camddefnyddio sylweddau
- perthynas ag eraill nad ydynt yn iach

Wrth iddynt ddysgu addasu a rheoli'r newidiadau hormonaidd hyn, maen nhw'n fwy agored hefyd i brofi gorbryder, problemau gyda hunan-barch isel a gallant ddechrau ymddygiad hunan-niweidio fel mecanwaith ymdopi.

Bydd y gwasanaethau nyrsio ysgolion yn darparu gwybodaeth drwy amrywiaeth o sianeli digidol i bob plentyn ym mlwyddyn 6 neu sy'n agosáu at 12 oed. Bydd y wybodaeth yn cynnwys:

- sut i gael mynediad at y nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol (nyrsio ysgolion) mewn sesiynau galw heibio
- amserlenni imiwneiddio
- meithrin perthynas iach ag eraill
- ymdrin â straen ac amgylcheddau newydd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- newidiadau emosiynol a chorfforol yn ystod y glasoed
- hydradu a maeth
- sut i gysylltu â gweithwyr proffesiynol priodol i gael cyngor

## Ysgol uwchradd i'r coleg neu'r gweithlu

Bydd y gwasanaethau nyrsio ysgolion yn darparu cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor rheolaidd i bobl ifanc drwy nifer o sianeli digidol i'w haddysgu, eu hysbysu a'u cefnogi i wneud dewisiadau iachach o ran ffordd o fyw.

Ar ôl dechrau addysg ysgol uwchradd, bydd y gwasanaethau nyrsio ysgolion yn canolbwyntio ar gefnogi plant a phobl ifanc gyda'r pontio a pherthynas iach ag eraill. Bydd y pwyslais ar y plant a'r bobl ifanc yn ysgwyddo cyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain yn y meysydd canlynol:

- newidiadau emosiynol a chorfforol trwy gyfnod y glasoed
- perthynas iach ag eraill a ffordd iach o fyw
- pwysigrwydd hunan-archwilio
- cael mynediad i sesiynau galw heibio cyfrinachol

Cyn i'r bobl ifanc orffen addysg ffurfiol yn 16 oed, bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu â phobl ifanc, gyda'r nod o'u paratoi ar gyfer eu camau nesaf mewn bywyd. Mae hyn yn allweddol er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cymryd rheolaeth dros eu dewisiadau ffordd o fyw a deall sut i estyn allan am gymorth. Mae'r pynciau a drafodir yn cynnwys:

- sut i gael gafael ar gyngor iechyd rhywiol
- cydsyniad mewn perthynas ag eraill
- cael mynediad at wasanaethau meddyg teulu neu 111 i gael cyngor a chael mynediad i'w cofnodion imiwneiddio
- cymorth iechyd meddwl os oes angen

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cefnogaeth lefel uwch a dwys

Bydd rhai plant a phobl ifanc angen haen uwch o gymorth yn ystod cyfnodau pontio ysgolion. Gall hyn fod oherwydd anghenion lles emosiynol presennol, gwendidau eraill, neu anghenion gofal iechyd cymhleth a all gynyddu effaith newidiadau fel y glasoed sydd wedi'u disgrifio uchod.

Yn y model gweithredu hwn, bydd gwasanaethau nyrsio ysgolion yn gweithio ar y cyd i asesu anghenion plentyn a chytuno ar sut mae sesiynau ystafell ddosbarth iechyd cyhoeddus yn cael eu darparu ym mhob ysgol. Mewn ysgolion arbennig, efallai y bydd rhai plant a phobl ifanc yn gallu cymryd rhan mewn sesiynau yn yr ystafell ddosbarth, gan ddefnyddio deunyddiau gweledol ac addasiadau ond ni fydd eraill. Felly, bydd y ddarpariaeth yn cael ei theilwra yn unol â hynny yn seiliedig ar angen o adeg cychwyn yn yr ysgol ymlaen. Bydd nyrsys sy'n gweithio mewn ysgolion arbennig yn gweithio mewn model tîm o amgylch y plentyn i gefnogi'r addasiadau gofynnol. Mae cysylltu â rhieni/ gofalwyr yn allweddol i hyn.

Gall plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth fod yn fwy sensitif i newidiadau mewn wynebau, strwythur, trefn a'r amgylchedd. Bydd nyrsys sy'n gweithio mewn ysgolion arbennig yn cefnogi'r ysgol i reoli anghenion iechyd a lles y plentyn / person ifanc yn ystod cyfnodau pontio ysgol. Mae'r rôl cydlynu gofal, y mae'r nyrs mewn ysgolion arbennig yn ymgymryd â hi, yn bwysig i gefnogi cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a pharhad gofal ac i hyrwyddo prosesau rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau. Dylid cynnal cyfarfodydd o leiaf 8 wythnos cyn y bydd pontio'n digwydd (er enghraifft, newid blwyddyn ysgol) os rhagwelir y bydd angen cymorth ychwanegol ar y plentyn neu'r person ifanc. Mae cynllunio amlddisgyblaethol yn allweddol i ddarparu proses bontio well a lleihau gorbryder i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd a lleihau unrhyw effaith andwyol ar iechyd a lles y plentyn.

Fel mewn lleoliadau prif ffrwd, y nod wrth i'r plentyn / person ifanc gyrraedd glasoed yw hyrwyddo ei ddealltwriaeth o risgiau a'i rymuso i wneud dewisiadau ffordd o fyw iachach hunanwybodus. Mae cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ddatblygu hunanofal, wedi'i addasu i gydnabod naill ai ei anghenion gofal iechyd a lles wrth wella ei annibyniaeth, yn bwysig wrth iddo ddatblygu i gyfnod y glasoed.

## Disgyblion sy'n ymadael â’r ysgol ac yn pontio i wasanaethau oedolion

Bydd angen pecyn gofal a chymorth parhaus ar rai pobl ifanc gan wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol yn dilyn eu pen-blwydd yn 18 oed. Mae pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn broses gymhleth a dylai'r gwaith cynllunio ddechrau mor gynnar â 14 oed. Yn unol â'u cylch gwaith cydlynu gofal, mae'n bwysig i'r nyrs mewn ysgolion arbennig gysylltu â'r gweithiwr / gweithwyr proffesiynol sy'n arwain ar y gwaith o gynllunio pontio'r person ifanc a sefydlu a oes cydlynydd pontio wedi'i neilltuo. Bydd y person ifanc yn hysbys i wasanaethau nyrsio plant cymunedol lleol neu wasanaethau anabledd dysgu plant ac efallai y bydd ganddo weithiwr cymdeithasol presennol gyda gwasanaethau plant yr awdurdod lleol.

## Gwasanaeth galw heibio cyfrinachol

Bydd y nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol (nyrsio ysgolion), yn darparu sesiynau galw heibio cyfrinachol i blant ym mhob ysgol uwchradd prif ffrwd. Bydd y sesiynau galw heibio hyn yn cael eu cynnal yn wythnosol ar safle ysgol uwchradd yn ystod tymor ysgol ac yn ystod oriau ysgol. Mae'r sesiynau galw heibio hyn yn darparu gofod cyfrinachol lle gall plant a phobl ifanc deimlo'n gyfforddus i drafod pryderon iechyd neu emosiynol personol. Gall pob plentyn a pherson ifanc yn yr ysgol uwchradd gael mynediad at y gwasanaeth galw heibio hwn yn gyfrinachol. Ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol, bydd lleoliadau cyfleus eraill ar gael i blant a phobl ifanc gael mynediad at y gwasanaeth, er enghraifft, sesiynau bore coffi gyda theuluoedd, sesiynau galw heibio cymunedol, a hysbysebir drwy sianeli digidol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae'r gwasanaethau nyrsio ysgolion wedi'u hyfforddi i fod ag ymwybyddiaeth ac i nodi lle gall problemau fod yn fwy cymhleth a gallu cefnogi, cyfeirio ac atgyfeirio plant a phobl ifanc at wasanaethau eraill mwy priodol. Mae'r dull hwn yn meithrin ymddiriedaeth ac yn annog cyfathrebu agored, fel y gellir adnabod yn gynnar a rhoi cefnogaeth briodol.

Mae plant a phobl ifanc wedi dweud ei bod yn eithriadol o bwysig cael cysondeb gydag un nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol (nyrsio ysgol), ar gyfer y sesiynau galw heibio wythnosol, gan eu bod yn teimlo bod hyn yn gwella effeithiolrwydd y gefnogaeth. Mae'n meithrin perthnasoedd seiliedig ar ymddiriedaeth rhwng y plentyn / person ifanc a'r nyrs gan greu amgylchedd cyfforddus ar gyfer cyfathrebu agored. Mae'r parhad hwn yn caniatáu i'r nyrs ddeall yn well anghenion y plentyn / person ifanc a darparu cymorth mwy personol dros amser, gan gynnwys osgoi'r angen i blant / pobl ifanc ailadrodd eu stori wrth weithwyr proffesiynol lluosog, sy'n aml yn rhwystr i bobl ifanc geisio cymorth yn y lle cyntaf.

Mae cyfrinachedd yn y sesiynau galw heibio hyn yn hanfodol ar gyfer creu lle diogel a chyfnewid gwybodaeth. Bydd y nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol (nyrsio ysgol), sy'n gweithio o fewn polisi a chanllawiau diogelu'n sicrhau bod cyfrinachedd yn parhau, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol lle mae risg o niwed. Mae'r cyfrinachedd hwn yn helpu i feithrin ymddiriedaeth ac yn annog plant i rannu eu pryderon yn agored gyda'r sicrwydd y bydd eu preifatrwydd yn cael ei barchu.

Fel rhan o'r sesiynau galw heibio, bydd y gwasanaethau nyrsio ysgolion yn darparu cefnogaeth a thrafodaethau ynghylch iechyd rhywiol. Bydd y nyrs yn darparu gwybodaeth werthfawr am bynciau sy'n ymwneud â glasoed, perthynas ag eraill, ac arferion diogel. Mae'r sgyrsiau hyn yn grymuso pobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles. Mae'n hanfodol drwy'r sesiynau hyn bod y nyrs yn darparu amgylchedd diogel ac anfeirniadol i blant / pobl ifanc ofyn cwestiynau a gofyn am gyngor ac arweiniad. Bydd mynediad i'r cynllun dosbarthu condomau ar gael drwy'r sesiynau galw heibio hefyd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Un pwynt mynediad

Bydd y gwasanaethau nyrsio ysgolion yn darparu un pwynt mynediad i rieni/gofalwyr a theuluoedd gael mynediad at gyngor a chymorth. Bydd y dull hwn yn gwella effeithlonrwydd ac yn sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cysylltu'n hawdd pan fydd angen y cymorth a'r cyngor. Bydd y wybodaeth pwynt mynediad unigol yn cael ei darparu i bob teulu drwy'r pecyn croeso cychwyn yn yr ysgol.

# Rhan 6: crynodeb o'r amserlen imiwneiddio

## Rhaglen imiwneiddio plentyndod i blant oed ysgol

Mae sicrhau bod plant yn cael cynnig ac yn derbyn brechiadau’n agwedd sylfaenol ar iechyd y cyhoedd, gan hyrwyddo lles unigol a gwytnwch cymunedol yn erbyn clefydau y gellir eu hatal yn unol ag amserlen imiwneiddio arferol y plant ar gyfer pob plentyn yng Nghymru.

Bydd gwasanaethau nyrsio ysgolion yn unol â'r fframwaith ar gyfer nyrsio mewn ysgolion yng Nghymru, yn darparu'r rhaglenni ysgol i bob disgybl yn unol â'r safonau.

Bydd negeseuon allweddol iechyd cyhoeddus yn cael eu cyflwyno i ddisgyblion cymwys yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn y dylent gael y brechiadau. Trwy ymgorffori gwybodaeth gywir sy'n briodol i'w hoedran, gall gwasanaethau nyrsio ysgolion rymuso disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles. Bydd disgyblion yn dysgu sut mae brechlynnau'n eu hamddiffyn rhag clefydau penodol, gan hyrwyddo ymagwedd ragweithiol tuag at eu hiechyd eu hunain.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Safonau imiwneiddio ar gyfer gwasanaethau nyrsio ysgolion

## Asesu statws imiwneiddio pob plentyn o oedran cychwyn yn yr ysgol

Bydd statws brechu pob disgybl yn cael ei wirio wrth gychwyn yn yr ysgol gynradd er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn gyfredol gydag amserlen y DU ar gyfer imiwneiddio arferol yn ystod plentyndod. Bydd gwybodaeth yn cael ei chynnig i deuluoedd am y ffordd y gellir cael y brechiadau sydd heb eu cael.

## Brechlyn ffliw byw wedi'i wanhau (LAIV)

Cynigir brechlyn ffliw byw (LAIV) drwy'r trwyn i bob disgybl cymwys yn yr ysgol yn ystod tymor ysgol yr hydref.

## Asesu statws imiwneiddio pob plentyn o oedran cychwyn yn yr ysgol uwchradd

Bydd statws brechu pob disgybl yn cael ei wirio wrth gychwyn yn yr ysgol uwchradd er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn gyfredol gydag amserlen y DU ar gyfer imiwneiddio arferol yn ystod plentyndod a bydd gwybodaeth yn cael ei chynnig am sut i gael y brechiadau sydd heb eu cael.

## Safon genedlaethol bod pob disgybl cymwys ym mlwyddyn ysgol 8 yn cael cynnig y brechlyn HPV

Bydd pob disgybl cymwys ym mlwyddyn ysgol 8 yn cael cynnig y brechlyn HPV.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Mae pob person ifanc cymwys ym mlwyddyn 9 yn cael cynnig y brechlynnau Td/IPV a MenACWY

Bydd pob disgybl cymwys ym mlwyddyn ysgol 9 yn cael cynnig brechlyn Td/IPV a MenACWY.

Rhoddir y Td/IPV, a elwir hefyd yn "pigiad atgyfnerthu i bobl yn eu harddegau" neu "3 mewn 1", i hybu amddiffyniad rhag 3 chlefyd ar wahân:

- tetanws
- diphtheria
- polio

Mae'n un pigiad a roddir i gyhyr y fraich uchaf.

Mae'r brechlyn MenACWY yn helpu i'ch amddiffyn rhag 4 achos gwahanol llid yr ymennydd a septisemia: brechlynnau grwpiau meningococaidd A, C, W ac Y.

## Bydd cyfleoedd yn cael eu darparu i ddal i fyny gyda brechiadau i'r rhai sy'n colli brechiadau

Bydd cyfleoedd yn cael eu darparu i ddal i fyny gyda brechiadau ar gyfer y rhai sy'n colli brechiadau wedi'u trefnu i amddiffyn rhag ffliw tymhorol, y firws papiloma dynol, tetanws, diphtheria a pholio a llid yr ymennydd a septisemia (Fluenz, HPV, Td/IPV a MenACWY).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Rhan 7: diogelu

# Diogelu

## Ein dull gweithredu

Fel rhan o ymateb ehangach GIG Cymru ac ymateb amlasiantaethol i ddiogelu, mae gan wasanaethau nyrsio ysgol rôl bwysig wrth hyrwyddo, amddiffyn a diogelu iechyd a lles plant a phobl ifanc. Sefydlwyd y dull o ddiogelu ar gyfer gwasanaethau nyrsio ysgolion drwy gyfres o safonau gofynnol yn y fframwaith ar gyfer nyrsio mewn ysgolion 2017 ac mae byrddau iechyd wedi monitro cydymffurfiaeth â'r safonau hyn ac aliniad â'r gweithdrefnau diogelu Cymru gyfan amlasiantaethol dilynol 2019.

Mae gan y gwasanaethau nyrsio ysgolion ddull iechyd ar sail y boblogaeth o gyflawni, sy'n golygu nad oes ganddynt lwyth achosion yn yr un modd â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, fel ymwelwyr iechyd, neu ymarferwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, fel gweithwyr cymdeithasol. Beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol yw efallai na fydd plentyn / person ifanc sydd â phryder diogelu yn hysbys i wasanaethau nyrsio ysgolion, felly mae'n bwysig bod GIG Cymru'n nodi'r arweinydd iechyd cywir yn gynnar i ddarparu'r ymateb diogelu gorau gan GIG Cymru. At ddibenion y model gweithredu hwn, mae'r llwybr canlynol wedi'i ddatblygu i gefnogi'r safonau gofynnol presennol yn y fframwaith ar gyfer nyrsio mewn ysgolion, er mwyn nodi'n glir beth fydd gwasanaethau nyrsio ysgolion yn ei ddarparu mewn perthynas â diogelu ar gyfer yr achosion penodol hynny pan nodir yn gywir mai'r gwasanaethau nyrsio ysgolion yw arweinydd GIG Cymru, oherwydd eu gwybodaeth a/neu eu hymwneud parhaus â phlentyn / person ifanc a'i deulu.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Adolygiad iechyd cychwyn yn yr ysgol

Yn unol â Rhaglen Plant Iach Cymru, tynnir sylw'r gwasanaethau nyrsio ysgol at bob plentyn sy'n 5 mlwydd oed sydd â phryderon diogelu, pan gânt eu trosglwyddo yn ystod yr adolygiad iechyd cychwyn yn yr ysgol.

## Pryderon diogelu newydd

Lle mae pryderon diogelu newydd wedi'u nodi yn ystod taith plentyn neu berson ifanc drwy oedran ysgol, bydd y gwasanaethau nyrsio ysgolion yn cynnal asesiad iechyd gyda'r plentyn neu berson ifanc cyn y gynhadledd achos gychwynnol i nodi unrhyw anghenion iechyd. Os yw'r hysbysiad i wasanaethau nyrsio ysgolion yn cael ei ohirio ac na ellir gwneud hyn, rhaid cynnal yr asesiadau iechyd ddim hwyrach na'r cam allweddol cyntaf. Y cyfeirir ato gan weithwyr proffesiynol fel y cyfarfod "grŵp craidd cyntaf".

## Asesiad iechyd

Bydd yr asesiad iechyd hwn yn llywio'r adroddiad a gyflwynir i'r gynhadledd. Bydd yn canolbwyntio ar y plentyn a bydd yn cynnwys y plentyn neu berson ifanc yn uniongyrchol ymlaen llaw. Bydd yr adroddiad yn cynnwys teimladau a dymuniadau'r plentyn neu berson ifanc, a'r canlyniadau a ddymunir ganddo a'r hyn sy'n bwysig iddo, gan gynnwys unrhyw anghenion iechyd heb eu diwallu. Yna bydd penderfyniad proffesiynol a arweinir gan yr asesiad iechyd yn cael ei wneud, drwy'r gynhadledd achos, ynghylch a oes angen unrhyw gyfranogiad parhaus mewn unrhyw adolygiadau neu grwpiau craidd dilynol. Bydd cyfranogiad yn ailgychwyn os daw pryderon newydd i'r amlwg.

Mae'r asesiad iechyd yn hanfodol wrth nodi pryderon a phroblemau iechyd posibl, gan sicrhau bod ymyriadau amserol yn cael eu cynllunio a chan

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hyrwyddo unrhyw ddulliau atal. Mae'n rhoi cyfle i addysg iechyd mewn perthynas â themâu craidd gan gynnwys:

- maeth
- ymataliaeth
- imiwneiddiadau
- materion deintyddol
- cymorth i'r plentyn / person ifanc a'i deulu

## Gweithiwr iechyd proffesiynol arweiniol

Bydd gan bob plentyn oed ysgol waeth beth fo'i leoliad addysgol y gweithiwr iechyd proffesiynol mwyaf priodol yn rhan o'r broses. Er enghraifft:

- pediatregydd
- nyrs mewn ysgol arbennig
- ymarferydd cyffredinol (GP)
- gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd
- nyrs plant gymunedol
- nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol (nyrsio ysgolion)
- gweithiwr proffesiynol y gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed

Ni ddylai'r rôl broffesiynol iechyd arweiniol sy'n cydlynu a mynychu pob cynhadledd achos ar ran GIG Cymru gael ei chyflawni gan y gwasanaethau nyrsio ysgolion yn ddiofyn. Rhaid bod gan y gweithiwr iechyd proffesiynol arweiniol sy'n mynychu'r gynhadledd gyfraniad ystyrlon a sylweddol i'w wneud o amgylch y teulu a'r plentyn / person ifanc. Mae'n eithriadol o bwysig bod y gweithiwr iechyd proffesiynol arweiniol yn y gynhadledd ddiogelu yn adnabod y plentyn, person ifanc a'r teulu lle y bo hynny'n briodol, er mwyn sicrhau'r canlyniadau diogelu gorau i'r plentyn neu berson ifanc.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Rhan 8: addysg cydberthynas a rhywioldeb

## Addysg cydberthynas a rhywioldeb

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn hanfodol i bob plentyn a pherson ifanc am sawl rheswm. Os ydynt yn cael y wybodaeth gywir, caiff plant a phobl ifanc eu grymuso i wneud dewisiadau gwybodus, iach, parchus a chyfrifol am eu hiechyd rhywiol, eu cydberthnasoedd a'u lles.

Mae'r sesiynau addysg yn cael eu darparu gan y gwasanaethau nyrsio ysgolion ac maen nhw'n darparu gwybodaeth am y meysydd canlynol:

- cydberthnasoedd iach
- beth i'w ddisgwyl yn ystod glasoed, gan gynnwys y newidiadau corfforol ac emosiynol
- atal cenhedlu, er mwyn atal heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (STIs) a beichiogrwydd anfwriadol
- ystyr cydsyniad
- parchu amrywiaeth
- cyfathrebu ac annog pobl ifanc i estyn allan am gymorth
- cydraddoldeb rhywiol

Mae'r cod addysg cydberthynas a rhywioldeb 2021 yn cefnogi ysgolion i greu rhaglen sydd wedi'i theilwra'n unigol eu disgybl yn dibynnu ar angen. Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfle i ddatblygu eu dealltwriaeth o gydberthnasoedd a rhywioldeb, gan gymryd ymagwedd seiliedig ar hawliau yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Bydd y gwasanaethau nyrsio ysgolion yn cydweithio ag ysgolion unigol ac yn ffurfio rhan o'r rhaglen ehangach sy'n cael ei darparu yn yr ysgol. Bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei theilwra i anghenion unigolion a chaiff ei chyflwyno gan ddefnyddio dulliau gwahanol er enghraifft, ystafell ddosbarth, grwpiau, ar y cyd â theuluoedd, neu adnoddau digidol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae'r cynnwys a gyflwynir yn briodol i oedran yn unol â'r cod ac wedi'i deilwra i oedran y plentyn a'r gynulleidfa. Wrth i blant a phobl ifanc symud ymlaen drwy addysg ac aeddfedu, bydd lefel y manylion a'r wybodaeth yn cynyddu yn ôl y cod. Mae'r wybodaeth yn meithrin amgylchedd sy'n annog unigolion i fod yn agored, sy'n anfeirniadol ac yn gynhwysol. Mae'r iaith a ddefnyddir yn hawdd ei deall a gall y grŵp oedran ei deall.

Bydd y gwasanaethau nyrsio ysgolion yn darparu gwybodaeth i bob plentyn a pherson ifanc drwy'r rhaglen gyffredinol, fel y nodir yn y model gweithredu:

- blwyddyn 5 a 6: tyfu i fyny, gan gynnwys glasoed a hylendid
- blwyddyn 9: cydberthnasoedd, gan gynnwys heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
- blwyddyn 9: cydberthnasoedd, gan gynnwys atal cenhedlu

Yn ystod oedran ysgol uwchradd, trwy leoliadau ysgol, darperir pwysigrwydd cyfathrebu, empathi a pharch y naill at y llall wrth feithrin cydberthnasoedd iach. Rhennir gwybodaeth hefyd am y gwasanaethau lleol sydd ar gael i bobl ifanc a sut i gael mynediad at y gwasanaethau hyn pe baent yn dymuno gwneud hynny neu angen gwneud hynny.

Yn ogystal â'r wybodaeth hon, gall pobl ifanc gael mynediad at wasanaeth cynghori cyfrinachol am ddim am iechyd rhywiol a chydberthnasoedd hefyd, a ddarperir gan y gwasanaethau nyrsio ysgolion. Mae'r sesiynau galw heibio yn gyfle i drafod pwnc penodol yn fanylach gydag aelod staff hyfforddedig neu i ofyn am ragor o wybodaeth.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-ar-gyfer-plant-oedran-ysgol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.